# Trosolwg o Broses Asesu ADHD

Pan fo rhywun yn cael asesiad ADHD, mae'r aseswyr yn edrych am wybodaeth a all eu helpu i benderfynu os yw'r unigolyn yn cyrraedd y meini prawf ar gyfer diagnosis. Mae 3 canlyniad diagnostig posib os cyrhaeddir y meini prawf

- ADHD math diffyg sylw
- ADHD - Math gorfywiogrwydd/byrbwylltra
- Math cyfun

Er mwyn cael diagnosis o'r math diffyg sylw mae angen i'r unigolyn (neu eu rhiant/gofalwr) ddangos bod ganddynt chwech neu fwy o set o nodweddion, bod y nodweddion yn cael effaith sylweddol ar fywyd dyddiol a'u bod yn anghyson â lefel datblygiadol yr unigolyn. Y nodweddion yw:

a.Yn aml yn methu â rhoi sylw agos i fanylion neu'n gwneud camgymeriadau diofal mewn gwaith ysgol, yn y gwaith neu yn ystod gweithgareddau eraill
b.Yn aml yn cael anhawster wrth gynnal sylw mewn tasgau neu weithgareddau chwarae
c.Yn aml ni ymddengys eu bod yn gwrando pan siaradir gyda nhw'n uniongyrchol
d.Yn aml nid ydynt yn dilyn cyfarwyddiadau ac yn methu â gorffen gwaith ysgol, tasgau, dyletswyddau yn y gweithle
e.Yn aml yn cael anhawster wrth drefnu tasgau a gweithgareddau
f.Osgoi pethau nad ydynt yn ei hoffi neu'n amharod i wneud tasgau sydd angen ymdrech feddyliol barhaus
g.Yn aml yn colli pethau sydd eu hangen ar gyfer tasgau neu weithgareddau
h.Yn aml gellir tynnu eu sylw'n hawdd gan ffynhonnell allanol
i.Yn aml yn anghofus mewn gweithgareddau dyddiol

Er mwyn cael diagnosis o'r math gorfywiogrwydd/byrbwylltra mae angen i'r unigolyn (neu eu rhiant/gofalwr) ddangos bod ganddynt chwech neu fwy o set o nodweddion, bod y nodweddion yn cael effaith sylweddol ar fywyd dyddiol a'u bod yn anghyson â lefel datblygiadol yr unigolyn. Y nodweddion yw:

a.Yn aml yn aflonydd gyda'u dwylo neu eu traed neu'n gwingo yn eu sedd
b.Yn aml yn gadael y sedd yn y dosbarth neu mewn sefyllfaoedd eraill ble disgwylir iddynt aros yn eu sedd
c.Yn aml yn rhedeg o gwmpas neu'n dringo mewn sefyllfaoedd ble mae hynny'n amhriodol (mewn rhai yn eu harddegau neu oedolion, gall fod yn gyfyngedig i deimladau goddrychol o aflonyddwch)
d.Yn aml yn cael anhawster chwarae neu gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden yn dawel

e. Yn aml "yn brysur" neu'n ymddwyn fel pe baent "wedi eu gyrru gan fodur"
f. Yn aml yn siarad yn ddiddiwedd.
g. Yn aml yn rhoi'r ateb cyn gorffen gofyn y cwestiwn
h.Yn aml yn cael anhawster wrth aros tro
i.Yn aml yn torri ar draws neu'n amharu ar eraill (e.e., torri ar draws sgyrsiau neu gemau)

Ar gyfer diagnosis o fath ADHD cyfun mae angen digon o nodweddion diffyg sylw a gorfywiogrwydd/byrbwylltra.

Mae'r diagnosis hefyd yn seiliedig ar dystiolaeth fod y nodweddion wedi bod yn bresennol am fwy na 6 mis a gellir eu gweld ar draws o leiaf dau amgylchedd (e.e. y cartref a'r ysgol neu'r cartref a'r gwaith) ac maent yn ymyrryd neu'n gostwng ansawdd bywyd yr unigolyn.

Er mwyn cynnal yr asesiad yn effeithiol, mae angen i'r clinigydd gasglu llawer o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am blentyndod yr unigolyn. Byddant yn edrych ar enghreifftiau o ymddygiad sy'n cyd-fynd â'r nodweddion a ddisgrifiwyd uchod.

Fel rhan o'r asesiad, efallai y byddwch yn cael holiadur i'w lenwi am eich plentyn/aelod o'r teulu. Mae hwn yn cynnwys llawer o gwestiynau amdanynt, y dylech geisio eu hateb gyda chymaint o wybodaeth â phosib, gan ddefnyddio enghreifftiau clir. Un peth y dylech fod yn ymwybodol ohono yw y bydd y rhan fwyaf o'r cwestiynau hyn yn canolbwyntio ar anawsterau neu broblemau'r unigolyn, a gall fod yn anodd canolbwyntio ar agweddau negyddol ymddygiad un o'ch anwyliaid. Yn anffodus, mae'r meini prawf diagnostig ar gyfer ADHD yn seiliedig ar benderfynu a yw'r nodweddion yn effeithio ar unigolyn a'u hansawdd bywyd i raddau ble gall diagnosis a meddyginiaeth o bosib helpu.

(Os mai plentyn yw'r sawl sy'n cael ei asesu, efallai y bydd angen gwybodaeth ychwanegol o sefyllfaoedd eraill y mae'r plentyn ynddynt fel arfer. Gallai hyn olygu arsylwi ar y plentyn yn yr ysgol, ond os nad yw'r plentyn yn yr ysgol, yna gallai olygu arsylwi arnynt yn ystod gweithgareddau cymdeithasol neu seibiant. Y rheswm dros edrych ar sut mae'r plentyn yn ymddwyn mewn gwahanol amgylchedd yw mai rhan o sail y diagnosis ADHD yw bod angen i'r unigolyn ddangos anawsterau mewn gwahanol amgylchedd (nid dim ond yn y cartref, neu ddim ond yn yr ysgol). Os ydynt yn ei chael yn anodd mewn un amgylchedd yn unig, gallai fod rheswm gwahanol dros eu hymddygiad.)

Ni fydd yr asesydd yn gallu gwneud diagnosis yn seiliedig ar y cwestiynau hyn yn unig, bydd rhaid iddynt hefyd gyfarfod gyda'r unigolyn. Fodd bynnag, bydd yr atebion i'r cwestiynau hyn yn rhoi sail dda iawn iddynt gynnal gweddill y broses asesu.

Cynhelir rhan nesaf y broses wyneb yn wyneb a gallai olygu mwy nag un cyfarfod gyda mwy nag un gweithiwr proffesiynol. Gall yr asesiad llawn gymryd hyd at 2 awr, ond gall asesiadau cymhleth gymryd mwy na hyn. Bydd yn golygu gofyn llawer o gwestiynau iddynt, a fydd yn debyg i'r rhai yn yr holiadur. Gall hyn deimlo fel eich bod yn gorfod ailadrodd eich hun, ond gall hyn fod yn bwysig i'r clinigydd gael cymaint o wybodaeth â phosib.

Ar ôl cwblhau'r broses asesu, mae'r wybodaeth a gasglwyd yn cael ei hystyried gan yr aseswyr ac efallai gan dîm ehangach o bobl, i benderfynu os yw'r unigolyn wedi cyrraedd y meini prawf ar gyfer diagnosis. Mae'n bwysig cofio bod gan nifer o bobl y nodweddion hyn felly mae'n hanfodol paratoi i dderbyn nad diagnosis ffurfiol fydd canlyniad yr asesiad. Rhoddir y canlyniad fel arfer un ai wyneb yn wyneb, ar-lein neu dros y ffôn. Weithiau efallai y byddwch yn cael gwybod y canlyniad mewn llythyr. Bydd adroddiad yn nodi'r broses asesu a'r canlyniad yn cael ei ddarparu.

Os gwneir diagnosis, efallai y bydd apwyntiadau dilynol ar gyfer archwiliadau iechyd, i bennu os yw meddyginiaeth yn briodol ac os ydy pa fath o feddyginiaeth (adfywiol neu rai nad ydynt yn adfywiol). Bydd yr archwiliadau iechyd yn helpu i ganfod unrhyw gyflyrau iechyd penodol a all y feddyginiaeth gael effaith negyddol arnynt ac i leihau sgil-effeithiau posib.

Os darperir meddyginiaeth bydd yr unigolyn yn cael ei fonitro er mwyn mesur ac addasu'r dos, er mwyn iddo fod fwyaf buddiol. Efallai y bydd angen ychydig o apwyntiadau ar gyfer hyn yn y flwyddyn gyntaf ac yn flynyddol fel arfer wedi hynny.